



# Briff Ymchwil Araith y Frenhines 2017

Awdur: **Alys Thomas**

Dyddiad: **Gorffennaf 2017**



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Y Gwasanaeth Ymchwil

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

---

Awdur: **Alys Thomas**

Dyddiad: **Gorffennaf 2017**

Rhif Papur: **17-011**

Clawr blaen: **Llun: flickr gan UK Parliament. Trwydded Creative Commons.**

## Cysylltwch â ni

Y Gwasanaeth Ymchwil  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Tŷ Hywel  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA

☎ : 0300 200 6305

✉ : [Alys.Thomas@Cynulliad.Cymru](mailto:Alys.Thomas@Cynulliad.Cymru)

🌐 : [Cynulliad.Cymru/Pigion](http://Cynulliad.Cymru/Pigion)

🐦 : [@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)

🌐 : [Cynulliad.Cymru/Ymchwil](http://Cynulliad.Cymru/Ymchwil)

## © Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2017

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Briff Ymchwil  
**Araith y Frenhines 2017**

---



## Cynnwys

<b>1. Cyflwyniad .....</b>	<b>1</b>
<b>2. Biliau yn ymwneud â gadael yr UE .....</b>	<b>1</b>
Bil Diddymu.....	1
Bil Tollau.....	1
Bil Masnach.....	2
Bil Mewnfudo.....	2
Bil Pysgodfeydd.....	2
Bil Amaethyddiaeth .....	3
Bil Diogelu Niwclear.....	3
Bil Sancsiynau Rhyngwladol.....	3
<b>3. Biliau yn ymwneud â'r Economi.....</b>	<b>3</b>
Bil Cerbydau Awtomataidd a Thrydan .....	3
Bil Diwydiant Gofod.....	4
Bil Rheilffordd Cyflym (Gorllewin Canolbarth Lloegr - Crewe).....	4
Bil Mesuryddion Deallus.....	5
Bil Cyfraniadau Yswiriant Gwladol .....	5
<b>4. Biliau Eraill .....</b>	<b>5</b>
Bil Diogelu Teithio .....	5
Bil Ffioedd Tenantiaid .....	5
Bil Drafft Trais a Cham-drin yn y Cartref.....	6
Bil Atebolrwydd Sifil .....	6
Bil Llysoedd.....	6
Bil Arweiniad Ariannol a Hawliadau.....	7
Bil Morgeisi Nwyddau.....	7
Bil Lluoedd Arfog (Gweithio Hyblyg).....	8
Bil Diogelu Data .....	8
Bil Drafft Diogelwch Cleifion.....	8
Bil yr UE (Cymeradwyaethau).....	9

# 1. Cyflwyniad

Cynhaliwyd Araith y Frenhines ar 21 Mehefin 2017, yn dilyn yr Etholiad Cyffredinol a gynhaliwyd ar 8 Mehefin 2017. Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi na fydd Araith y Frenhines y flwyddyn nesaf felly mae'r cynigion deddfwriaethol yn cwmpasu **cyfnod o ddwy flynedd**.

Mae'r araith yn cynnwys cynigion ar gyfer 19 darn o ddeddfwriaeth, y mae 8 ohonynt yn ymwneud â'r DU yn gadael yr UE. Mae yna 3 Bil drafft hefyd.

Yn wahanol i areithiau blaenorol y Frenhines, mae mwyafrif y ddeddfwriaeth arfaethedig yn ymwneud â materion sydd wedi'u cadw i'r DU neu faterion Cymru a Lloegr. Fodd bynnag, o ran amaethyddiaeth a physgodfeydd, mae Llywodraeth y DU yn dweud y bydd yn ymgynghori'n eang â'r gweinyddiaethau datganoledig ar raddau briodol unrhyw ddeddfwriaeth.

## 2. Biliau yn ymwneud â gadael yr UE

### Bil Diddymu

Pwrpas y Bil yw:

- Dod ag awdurdod cyfraith yr Undeb Ewropeaidd i ben yn y Deyrnas Unedig a dychwelyd pwerau o Frwsel i'r DU.
- Darparu llyfr statud weithredol ar y diwrnod y bydd y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd a sicrhau mai Senedd y DU (a'r deddfwrfeydd datganoledig lle y bo'n briodol) fydd yn gwneud unrhyw newidiadau yn y dyfodol i gyfreithiau'r DU.

Prif elfennau'r Bil yw:

- Diddymu *Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972* a newid cyfraith yr UE i gyfraith y DU pan fydd y DU yn gadael yr UE.
- Creu pwerau dros dro i wneud is-ddeddfwriaeth, gan alluogi cywiriadau i gael eu gwneud i'r deddfau nad ydynt yn gweithredu'n briodol unwaith y bydd y DU wedi gadael yr UE. Bydd hefyd yn caniatáu i newidiadau gael eu gwneud i gyfraith ddomestig i adlewyrchu cynnwys unrhyw gytundeb gadael o dan Erthygl 50.
- Dyblygu fframweithiau cyffredin y DU a grëwyd gan gyfraith yr UE yng nghyfraith y DU, a chynnal cwmpas pwerau gwneud penderfyniadau datganoledig yn syth ar ôl gadael yr UE.

Bydd hwn yn drefniant trosiannol i roi sicrwydd ar ôl gadael a chaniatáu trafodaeth ac ymgynghori gyda gweinyddiaethau datganoledig lle mae angen fframweithiau cyffredin.

Byddai prif ddarpariaethau'r Bil yn gymwys i'r DU i gyd.

### Bil Tollau

Pwrpas y Bil yw darparu deddfwriaeth ddomestig newydd i ddisodli deddfwriaeth tollau yr UE ac addasu elfennau o'r system trethi anuniongyrchol. Bydd hyn yn caniatáu i'r DU weithredu tollau a gweithdrefnau trethi anuniongyrchol ei hun ar ôl gadael yr UE, beth bynnag fydd canlyniad y trafodaethau.

Prif elfennau'r Bil yw darparu fframwaith deddfwriaeth domestig sy'n caniatáu i Lywodraeth y DU wneud y canlynol:

- codi tollau ar nwyddau sy'n cael eu mewnfurio ac addasu cyfraddau'r tollau hynny;
- casglu taliadau tollau, gweinyddu'r weithdrefn tollau a mynd i'r afael ag achosion o osgoi talu tollau;
- rheoli'r gwaith o fewnfurio ac allforio nwyddau;
- gwneud lle ar gyfer unrhyw drefniadau posibl y cytunwyd arnynt gyda'r UE.

**Byddai'r Bil yn gymwys i'r DU.** Mae tollau, TAW a materion tollau tramor a chartref yn faterion sydd wedi'u cadw'n ôl.

## Bil Masnach

Pwrpas y Bil yw helpu'r DU i adael yr Undeb Ewropeaidd a sicrhau bod busnesau'r DU yn gallu cael budd o fasnachu â gweddill y byd.

Prif elfennau'r Bil yw rhoi'r fframwaith deddfwriaethol hanfodol ac angenrheidiol ar waith i ganiatáu i'r DU weithredu ei bolisi masnachu annibynnol ei hun ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd.

Byddai'r Bil yn gymwys i'r DU.

Roedd maniffesto'r Ceidwadwyr yn dweud:

---

We will create a network of Her Majesty's Trade Commissioners to head nine new regional overseas posts. These commissioners will lead export promotion, investment and trade policy overseas. We will reconvene the Board of Trade with a membership specifically charged with ensuring that we increase exports from Scotland, Wales and Northern Ireland as well as England, and that trade policy is directly influenced by every part of our United Kingdom.

---

## Bil Mewnfudo

Pwrpas y Bil yw caniatáu i'r Llywodraeth ddod â rheolau'r UE ar symud dinasyddion yr UE yn rhydd yn y DU i ben a gwneud symud dinasyddion yr UE ac aelodau o'u teuluoedd yn ddarostyngedig i gyfraith y DU unwaith y bydd y DU wedi gadael yr UE.

Prif elfennau'r Bil yw:

- Caniatáu i Lywodraeth y DU ddiddymu cyfraith yr UE ar fewnfudo, yn bennaf symud rhydd a fydd yn cael ei arbed a'i drosi yn gyfraith y DU gan y Bil Diddymu.
- Caniatáu i Lywodraeth y DU wneud symud dinasyddion yr UE ac aelodau o'u teuluoedd yn ddarostyngedig i gyfraith y DU unwaith y bydd y DU wedi gadael yr UE.

**Byddai'r Bil yn gymwys i'r DU.** Mae mewnfudo yn fater sydd wedi'i gadw'n ôl.

## Bil Pysgodfeydd

Pwrpas y Bil yw galluogi'r DU i reoli mynediad i'w dyfroedd a phennu cwtâu pysgota'r DU unwaith y bydd wedi gadael yr UE.

Prif elfennau'r Bil yw pwerau i alluogi'r DU i ymarfer cyfrifoldeb dros fynediad i bysgodfeydd a rheoli ei dyfroedd.

Bydd agweddau o'r Bil yn ymestyn i'r DU, gan nad yw materion rhyngwladol wedi'u datganoli. **Mae Llywodraeth y DU yn dweud y bydd yn ymgynghori'n eang â'r gweinyddiaethau datganoledig ar raddau priodol unrhyw ddeddfwriaeth.**

## Bil Amaethyddiaeth

Pwrpas y Bil yw rhoi sefydlogrwydd i ffermwyr wrth i'r DU adael yr UE.

Prif elfennau'r Bil yw mesurau i sicrhau, ar ôl i'r DU adael yr UE, ac felly y Polisi Amaethyddol Cyffredin, fod system effeithiol ar waith i gefnogi ffermwyr y DU a diogelu ein hamgylchedd naturiol.

**Mae Llywodraeth y DU yn dweud y bydd yn ymgynghori'n eang â'r gweinyddiaethau datganoledig ar raddau briodol unrhyw ddeddfwriaeth.**

## Bil Diogelu Niwclear

Pwrpas y Bil yw sefydlu gweithdrefn diogelu niwclear y DU wrth i ni adael yr Undeb Ewropeaidd ac Euratom.

Prif elfennau'r Bil yw rhoi pwerau i'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear i gymryd y rôl a chyfrifoldebau angenrheidiol i gyflawni ein dulliau diogelu rhyngwladol a rhwymedigaethau atal amlhau niwclear.

**Byddai'r Bil yn gymwys i'r DU. Mae diogelu niwclear yn fater sydd wedi'i gadw'n ôl.**

## Bil Sancsiynau Rhyngwladol

Pwrpas y Bil yw galluogi'r DU i barhau i osod, diweddarau a chodi gweithdrefnau sancsiynau i gydymffurfio â'i rhwymedigaethau rhyngwladol ac i ddilyn ei hamcanion polisi tramor a diogelwch cenedlaethol ar ôl i'r DU adael yr UE.

Prif elfennau'r Bil yw darparu fframwaith deddfwriaethol domestig i ganiatáu i Lywodraeth y DU osod sancsiynau i sicrhau cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau o dan gyfraith rhyngwladol ar ôl i'r DU adael yr UE. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Rhewi asedau, gwahardd teithio a chyfyngiadau masnachu ac yn y farchnad;
- Sicrhau y gall unigolion a sefydliadau herio neu wneud cais am adolygiad o'r sancsiynau a osodwyd arnynt;
- Esemptio neu drwyddedu rhai mathau o weithgareddau, fel taliadau ar gyfer bwyd a meddyginiaeth, a fyddai fel arall wedi'u cyfyngu gan sancsiynau;
- Diwygio rheoliadau ar gyfer atal gwyngalchu arian ac ariannu gwrth-derfysgaeth a phasio rhai newydd ar ôl i'r DU adael yr UE.

**Byddai'r Bil yn gymwys i'r DU i gyd** ac yn cynnwys darpariaethau i ymestyn ei darpariaethau i'r Tiriogaethau Tramor a Dibynwledydd y Goron fel y bo'n briodol.

## 3. Biliau yn ymwneud â'r Economi

### Bil Cerbydau Awtomataidd a Thrydan

Pwrpas y Bil yw:

- Caniatáu i arloesedd ffynnu a sicrhau bod y don nesaf o dechnoleg hunan-yrru (awtomataidd) yn cael ei dyfeisio, cynllunio a gweithredu'n ddiogel yn y DU.
- Sicrhau ein bod yn cadw ein safle fel arweinydd byd-eang yn y farchnad ar gyfer cerbydau trydan drwy wella ein seilwaith gwefru ac ail-lenwi hydrogen cenedlaethol.

Prif elfennau'r Bil yw:

- Ymestyn yswiriant cerbydau modur gorfodol i gynnwys defnyddio cerbydau awtomataidd, i sicrhau y gellir parhau i dalu hawliadau iawndal yn gyflym, teg a hawdd, yn unol ag arfer yswiriant hirsefydlog.
- Caniatáu i Lywodraeth y DU ei gwneud yn ofynnol i osod pwyntiau gwefru ar gyfer cerbydau trydanol mewn gwasanaethau traffyrdd a manwerthwyr tanwydd mawr, a sicrhau cyfres o safonau technegol a gweithredol cyffredin. Bydd hyn yn sicrhau bod pwyntiau gwefru yn gyfleus i fynediad ac yn gweithio'n ddi-dor ar draws y DU.

**Byddai'r darpariaethau ar gyfer cerbydau awtomataidd yn gymwys i Gymru, Lloegr a'r Alban.**

**Byddai'r darpariaethau yn ymwneud â seilwaith cerbydau trydan yn gymwys i'r DU i gyd ac maent yn faterion sydd wedi'u cadw'n ôl**, heblaw am Ogledd Iwerddon lle bydd Llywodraeth y DU yn gofyn am gynnig cydsyniad deddfwriaethol.

## **Bil Diwydiant Gofod**

Prif elfennau'r Bil yw:

- Pwerau newydd i drwyddedu ystod eang o hediadau gofod masnachol newydd, gan gynnwys rocedi sy'n cael eu lansio'n fertigol, awyrennau gofod, gweithrediadau lloeren, porthladdoedd gofod a thechnolegau eraill.
- Fframwaith rheoleiddio cynhwysfawr a chymesur i reoli risg, gan sicrhau bod hediadau gofod masnachol yn y DU yn parhau i fod yn ddiogel.
- Mesurau i reoleiddio mynediad heb awdurdod ac ymyrryd â llongau gofod, meysydd rocedi gofod a seilwaith cysylltiedig – defnyddio arbenigedd helaeth y DU – yn enwedig ym maes diogelwch hedfan.
- Hyrwyddo diogelwch y cyhoedd drwy ddarparu fframwaith rheoleiddio i gwmpasu yswiriant, indemniad a rhwymedigaeth weithredol.

**Byddai'r Bil yn gymwys i'r DU**, gan fod gofod a hedfanaeth yn faterion sydd wedi'u cadw'n ôl.

## **Bil Rheilffordd Cyflym (Gorllewin Canolbarth Lloegr - Crewe)**

Pwrpas y Bil yw darparu pwerau i adeiladu a gweithredu cyfnod nesaf y rhwydwaith High Speed Two (HS2) o ddiwedd llwybr Cyfnod 1 yn Fradley at gyffordd â Phrif Linell Arfordir y Gorllewin i'r de o Crewe.

Prif elfennau'r Bil yw:

- Pwerau ar gyfer caffael gorfodol tir sydd ei angen ar gyfer y rheilffordd, adeiladu'r rheilffordd a'i weithredu.
- Caniatâd cynllunio tybiedig i gyflawni'r cynllun. Bydd manylion cynllunio yn cael eu datblygu fesul safle mewn cydweithrediad â'r awdurdod cynllunio lleol.
- Gosod sut bydd rheoliadau'r rheilffordd yn gymwys i'r rheilffordd.

**Byddai'r Bil yn ymestyn i'r DU** ond yn ymwneud â'r llwybr rhwng Fradley a Crewe, yn Lloegr.



## Bil Mesuryddion Deallus

Pwrpas y Bil yw:

- Caniatáu i Lywodraeth y DU barhau i helpu i gwblhau'r gwaith o gyflwyno mesuryddion deallus mewn modd effeithiol ac effeithlon.
- Caniatáu i Lywodraeth y DU weithredu a sicrhau bod y £5.7 biliwn o fuddion net a ddarperir gan fesuryddion deallus yn cael eu gwireddu'n llwyddiannus.
- Galluogi seilwaith mesuryddion deallus cenedlaethol i gael eu darparu'n ddiogel ym Mhrydain Fawr.

Prif elfennau'r Bil yw:

- Ymestyn gallu Llywodraeth y DU i wneud newidiadau i reoliadau mesuryddion deallus am bum mlynedd arall, gan wneud yn siŵr bod y gwaith o'i gyflwyno yn cael ei wneud yn effeithiol, ac y gwneir y gorau o fuddion yn y dyfodol.
- Cyflwyno Trefn Gweinyddu Arbennig a fydd yn darparu yswiriant ar gyfer y seilwaith mesuryddion deallus cenedlaethol rhag ofn y bydd y cwmni sy'n gyfrifol amdano yn dod yn ansolfent. Mae'r Drefn Gweinyddu Arbennig yn arfer safonol ar gyfer cwmnïau rhwydwaith ynni, cyflenwyr ynni ac mewn sectorau eraill fel dŵr a rheilffyrdd.

**Byddai'r Bil yn gymwys i Gymru, yr Alban a Lloegr.**

## Bil Cyfraniadau Yswiriant Gwladol

Pwrpas y Bil yw deddfu ar gyfer newidiadau cyfraniadau Yswiriant Gwladol (NICs) a gyhoeddwyd yng Nghyllideb 2016 a Datganiad yr Hydref 2016.

**Byddai'r darpariaethau yn y Bil hwn yn gymwys i'r DU.**

## 4. Biliau Eraill

### Bil Diogelu Teithio

Pwrpas y Bil yw gwella diogelwch i bobl sy'n mynd ar eu gwyliau drwy ddiweddarau cynllun diogelu ariannol y DU ar gyfer gwyliau.

Prif elfennau'r Bil yw diweddarau cynllun ATOL a'i alinio â gwelliannau i reoliadau teithio pecynnau yr UE a'r DU a oedd yn bodoli cyn i bobl drefnu gwyliau ar y rhynggrwyd.

Byddai'r mesurau yn:

- galluogi'r cynllun ATOL i gynnwys modelau busnes digidol newydd ac ymddygiad prynu defnyddwyr modern;
- alinio'r diogelwch a gynigir ledled Ewrop i alluogi cwmnïau sydd wedi'u sefydlu yn y DU i werthu'n haws ar draws ffiniau.

**Byddai'r Bil yn gymwys i'r DU.**

### Bil Ffioedd Tenantiaid

Pwrpas y Bil yw gwahardd codi 'ffioedd gosod' tenantiaid i wella tryloywder, fforddiadwyedd a chystadleuaeth yn y farchnad rhent preifat.

Prif elfennau'r Bil yw:

- Mesurau i wahardd landlordiaid ac asiantau rhag gofyn i denantiaid dalu ffioedd gosod fel amod o'u tenantiaeth.
- Mesurau i orfodi'r gwaharddiad gyda darpariaeth i denantiaid allu adennill ffioedd a godwyd yn anghyfreithlon.

Byddai'r Bil yn gymwys i Loegr yn unig. Fodd bynnag, gallai rhai mân ddiwygiadau i *Ddeddf Hawliau Defnyddwyr 2015* fod yn gymwys i Loegr a Chymru.

## Bil Drafft Trais a Cham-drin yn y Cartref

Pwrpas y Bil yw newid yr ymagwedd tuag at drais a cham-drin yn y cartref i sicrhau bod gan gleifion yr hyder i adrodd am eu profiadau.

Prif elfennau'r Bil yw:

- Sefydlu Comisiynydd Trais a Cham-drin yn y Cartref, i gynrychioli dioddefwyr a goroeswyr, codi ymwybyddiaeth y cyhoedd, monitro ymateb asiantaethau statudol ac awdurdodau lleol a dwyn y system gyfiawnder i gyfrif i fynd i'r afael â cham-drin yn y cartref.
- Diffinio cam-drin yn y cartref mewn cyfraith i ategu pob mesur arall yn y Bil.
- Creu trefn gyfunol ar gyfer gorchymyn atal a diogelu sifil ar gyfer cam-drin yn y cartref.
- Sicrhau, os yw'r cam-drin yn ymwneud â phlentyn, y gall y llys roi dedfryd sy'n adlewyrchu effaith hirdymor ddinistriol y gall y gamdriniaeth honno ei chael ar y plentyn.

Byddai prif ddarpariaethau'r Bil yn gymwys i Loegr a Chymru yn unig. Bydd swyddogaethau y Comisiynydd Trais a Cham-drin Domestig mewn perthynas â Chymru i'w pennu mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru.

## Bil Atebolrwydd Sifil

Pwrpas y Bil yw sicrhau bod system deg, dryloyw a chymesur o iawndal ar waith ar gyfer iawndal a delir i rai sy'n hawlio am anaf personol.

Prif elfennau'r Bil yw lleihau nifer a chostau yr hawliau atchwilio drwy wahardd cynigion i setlo hawliau heb gefnogaeth tystiolaeth feddygol a chyflwyno tariff sefydlog newydd o iawndal ar gyfer anafiadau atchwilio am hyd at ddwy flynedd.

**Byddai'r Bil yn gymwys i Loegr a Chymru.**

## Bil Llysoedd

Pwrpas y Bil yw diwygio'r system llysoedd a thribiwnlysoedd i wella mynediad i gyfiawnder, gan wneud defnydd gwell o dechnoleg a moderneiddio arferion gweithio.

Prif elfennau'r Bil yw:

- Rhoi terfyn ar groesholi dioddefwyr trais domestig yn uniongyrchol gan eu tramgwyddwyr honedig yn llysoedd teuluol ac ymestyn y defnydd o wrandawiadau rhithwir, a fydd yn galluogi dioddefwyr i gymryd rhan mewn treialon heb orfod cwrdd â'u hymosodwr honedig wyneb yn wyneb.
- Galluogi'r rhai sydd wedi gwneud troseddau llai difrifol i ddewis pledio'n euog, derbyn euogfarn a thalu cosb sefydlog statudol ar-lein a fydd yn rhyddhau amser y llysoedd ar gyfer achosion mwy difrifol. Bydd angen i ddiffynyddion fynd ati i optio mewn i'r broses a gallant ddewis bod llys yn gwrando ar eu hachos yn lle os ydynt yn dymuno. Un enghraifft fyddai os yw troseddwr am y tro

cyntaf wedi cyfaddef teithio ar drên heb brynu tocyn. Bydd y diwygiadau hefyd yn cyflwyno gwasanaethau digidol a fydd yn caniatáu i fusnesau ddilyn eu hachosion yn gyflym, gan eu galluogi i adennill dyledion yn haws.

- Ateb galwadau system cyfiawnder fodern, drwy ddarparu amgylchedd gwaith gwell i farnwyr, gan ganiatáu cynnig mwy o swyddi arwain yn y farnwriaeth ar dymor sefydlog, a galluogi barnwyr i gael eu defnyddio yn fwy hyblyg i wella'r cyfleoedd ar gyfer datblygu gyrfa.

**Byddai'r Bil yn gymwys yn llawn i Loegr a Chymru** ac yn rhannol yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban.

## **Bil Arweiniad Ariannol a Hawliadau**

Pwrpas y Bil yw:

- Sefydlu Corff Arweiniad Ariannol Unigol hyd braidd newydd a fydd yn disodli tri darparwr presennol sy'n rhoi arweiniad ariannol gydag arian cyhoeddus.
- Cryfhau'r gwaith o reoleiddio Cwmnïau Rheoli Hawliadau drwy drosglwyddo'r cyfrifoldeb rheoleiddio i'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol.

Prif elfennau'r Bil yw:

- Sefydlu corff statudol newydd, sy'n atebol i Senedd y DU, sy'n gyfrifol am gydlynu'r gwaith o ddarparu cyngor ar ddyled, arweiniad ar arian ac arweiniad ar bensiynau.
- Galluogi gweithgareddau'r corff i gael eu hariannu drwy ardollau presennol ar gynlluniau pensiwn a'r diwydiant gwasanaethau ariannol.
- Trosglwyddo'r gwaith o reoleiddio gwasanaethau rheoli hawliadau i'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol, a throsglwyddo'r cyfrifoldeb dros ymdrin â chwynion i'r
- Gwasanaeth Ombwdsmon Ariannol.
- Sicrhau bod gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol y pwerau angenrheidiol i weithredu'r drefn rheoleiddio rheoli hawliadau. Bydd hyn yn cynnwys pŵer newydd a fydd yn caniatáu i'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol gapio'r ffioedd y mae Cwmnïau Rheoli Hawliadau yn eu codi ar ddefnyddwyr, yn ogystal â sicrhau proses awdurdodi fwy cadarn i gwmnïau newydd sy'n dymuno mynd i mewn i'r farchnad.

Byddai'r mesurau arweiniad ariannol yn **gymwys i'r DU, ac eithrio darparu cyngor ar ddyledion** gan y Corff Arwain Ariannol Unigol a fyddai'n gymwys i Loegr yn unig gan fod gweinyddu dyledion yn fater datganoledig.

Byddai mesurau ar reoleiddio Cwmnïau Rheoli Hawliadau **yn gymwys i Gymru a Lloegr yn unig.**

## **Bil Morgeisi Nwyddau**

Pwrpas y Bil yw parhau â gwaith Llywodraeth y DU i gyflwyno marchnad credyd defnyddwyr y mae Llywodraeth y DU yn credu fydd yn gweithio'n dda ac yn rhoi bargaen dda i ddefnyddwyr drwy foderneiddio deddfwriaeth o oes Fictoria.

Prif elfennau'r Bil yw:

- Diddymu *Biliau Deddfau Gwerthu* o oes Fictoria a'u disodli gyda *Deddf Morgeisi Nwyddau* sy'n galluogi unigolion i ddefnyddio eu nwyddau presennol (megis cerbyd) fel diogelwch i gael benthygiad, tra'n cadw meddiant o'r nwyddau.

- Cynyddu diogelwch i fenthycwyr sy'n mynd i anhawster ariannol, drwy gyflwyno gofyniad newydd i'r sawl sy'n benthycu gael gorchymyn llys cyn atafaelu nwyddau lle mae'r benthyciwr wedi gwneud addaliadau sylweddol (pan dalwyd un rhan o dri o'r benthyciad) ac am herio'r adfeddiant.
- Helpu benthycwyr mewn anhawster ariannol drwy roi hawl i fenthycwyr terfynu'n wirfoddol drwy drosglwyddo eu cerbyd neu nwyddau eraill i'r sawl sy'n benthyc.
- Darparu diogelwch i drydydd partïon sy'n prynu cerbyd yn amodol ar fenthyciad llyfr log a allai fod mewn perygl o adfeddiant, a'i gwneud yn gliriach y gallai benthycwyr sy'n gwerthu nwyddau yn fwriadol gyda benthyciad llyfr log fod yn cyflawni twyll.

Yn unol ag argymhellion Comisiwn y Gyfraith, **byddai'r Bil yn gymwys i Loegr a Chymru.**

## Bil Lluoedd Arfog (Gweithio Hyblyg)

Pwrpas y Bil yw helpu i recriwtio a chadw yn y Lluoedd Arfog drwy alluogi trefniadau gweithio hyblyg i swyddogion personél rheolaidd y Gwasanaeth.

Prif elfennau'r Bil yw diwygio *Deddf y Lluoedd Arfog 2006* i alluogi rhai achosion o weithio rhan amser a chyflogaeth mewn llefydd penodol o fewn y Lluoedd Arfog Rheolaidd. Barn Llywodraeth y DU yw y bydd darpariaethau gweithio hyblyg newydd yn galluogi swyddogion personél y Gwasanaeth sy'n dychwelyd o absenoldeb arbennig gan gynnwys mamolaeth, absenoldeb rhiant a mabwysiadu a rennir i gael mwy o opsiynau i helpu i'w gwneud yn haws i bontio yn ôl i waith.

Byddai'r Bil yn **gymwys i'r DU i gyd**, a byddai'n ymestyn hefyd i Ynys Manaw a thiriogaethau tramor Prydain (ac eithrio Gibraltar).

## Bil Diogelu Data

Pwrpas y Bil yw gwneud y fframwaith diogelu data yn addas i'r oes ddigidol, gan alluogi dinasyddion i gael rheolaeth gwell o'u data.

Prif elfennau'r Bil yw:

- Sefydlu cyfundrefn diogelu data newydd ar gyfer prosesu data gorfodi anghyfreithlon, gan ddisodli *Deddf Diogelu Data 1998*. Mae'r rheolau newydd yn cryfhau hawliau ac yn grymuso unigolion i gael mwy o reolaeth dros eu data personol, gan gynnwys hawl i gael eu hanghofio pan nad yw unigolion am gael eu data wedi'u prosesu mwyach, ar yr amod nad oes sail dilys dros ei gadw.
- Moderneiddio a diweddarau'r drefn ar gyfer prosesu data gan asiantaethau gorfodi'r gyfraith. Bydd y drefn yn cynnwys prosesu domestig a throsglwyddo data personol ar draws ffiniau.
- Diweddarau'r pwerau a'r sancsiynau sydd ar gael i'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Byddai'r **Bil yn gymwys i'r DU**. Mae diogelu data yn fater sydd wedi'i gadw'n ôl.

## Bil Drafft Diogelwch Cleifion

Pwrpas y Bil yw:

- Gwella'r ffordd mae'r GIG yn ymchwilio ac yn dysgu o gamgymeriadau drwy sefydlu Corff Ymchwilio Diogelwch Gwasanaeth lechyd annibynnol.
- Annog staff a chyfranogwyr eraill i rannu gwybodaeth yn rhydd gyda'r Corff Ymchwilio Diogelwch Gwasanaeth lechyd drwy wahardd datgelu gwybodaeth a gedwir mewn cysylltiad â'i ymchwiliadau diogelwch, gan greu 'lle diogel' i staff.

Prif elfennau'r Bil yw:

- Sefydlu Corff Ymchwilio Diogelwch Gwasanaeth Iechyd (HSSIB) mewn statud, gan ei ddarparu â phwerau clir i gynnal ymchwiliadau annibynnol a diduedd i risgiau diogelwch cleifion yn y GIG yn Lloegr.
- Creu gwaharddiad ar ddatgelu gwybodaeth a gedwir mewn cysylltiad ag ymchwiliad a gynhelir gan Gorff Ymchwilio Diogelwch Gwasanaeth Iechyd, gan alluogi cleifion i fod mor onest â phosibl. Ni fydd y gwaharddiad yn gymwys os bydd risg barhaus i ddiogelwch cleifion neu dystiolaeth o weithgarwch troseddol, ac yn yr achos hwnnw gall yr HSSIB roi gwybod i'r rheoleiddiwr perthnasol neu'r heddlu.

**Byddai'r Bil yn gymwys yn Lloegr yn unig.**

### **Bil yr UE (Cymeradwyaethau)**

Pwrpas y Bil yw gweithredu newidiadau i'r cytundebau rhyngwladol rhwng gwledydd yr UE a gwledydd nad ydynt yn rhan o'r UE.

Prif elfennau'r Bil yw galluogi'r DU i gefnogi mesurau'r UE sy'n rhoi statws arsylwi i Serbia ac Albania yn Asiantaeth Hawliau Sylfaenol yr UE a chytundeb i ddarparu ar gyfer mwy o gydweithio rhwng awdurdodau cystadleuaeth yr UE a Chanada.

**Byddai'r Bil yn berthnasol i'r DU i gyd.**